


# CYFNEWID **SYNIADAU** **CYFRES** SEMINARAU 2017

---

 **13 Gorffennaf 2017**

 **12.00 – 13.30**

 **Y Pierhead, Bae Caerdydd**



**Cynulliad Cenedlaethol Cymru**  
Y Gwasanaeth Ymchwil



**THE LEARNED SOCIETY OF WALES**  
**CYMDEITHAS DDYSGEDIG CYMRU**

Cynulliad Cenedlaethol Cymru yw'r corff sy'n cael ei ethol yn ddemocrataidd i gynrychioli buddiannau Cymru, i phobl, i ddeddfu ar gyfer Cymru, i gytuno ar drethi yng Nghymru, ac i ddwyn Llywodraeth Cymru i gyfrif.

## Cynnwys

<b>Cyflwyniad.....</b>	<b>5</b>
Agenda.....	7
Pontio i ddyfodol ynni carbon isel mwy craff a diogel: Archwilio'r achos dros bolisi ynni uchelgeisiol i Gymru.....	8
<b>Partneriaid digwyddiad.....</b>	<b>11</b>
Y Gwasanaeth Ymchwil.....	12
Cymdeithas Ddysgedig Cymru .....	13
<b>Datganiadau siaradwyr .....</b>	<b>15</b>
Dr Nina Skorupska .....	16
Yr Athro Max Munday .....	18
Yr Athro Hywel Thomas .....	19
Professor Andrew R Barron .....	20
<b>Proffiliau siaradwyr .....</b>	<b>23</b>
Dr Nina Skorupska .....	24
Yr Athro Max Munday .....	25
Yr Athro Hywel Thomas .....	26
Yr Athro Andrew R Barron.....	27



# Cyflwyniad

## Agenda

Bydd y seminar yn cael ei gadeirio gan Jenny Rathbone AC sy'n aelod o'r Pwyllgor Newid Hinsawdd, Amgylchedd a Materion Gwledig.

**12.00** – Cinio ysgafn

**12.30** – Cyflwyniad y Cadeirydd  
Wedi'i ddilyn gan gyflwyniadau gan y pedwar siaradwr:

- Dr Nina Skorupska
- Yr Athro Max Munday
- Yr Athro Hywel Thomas
- Yr Athro Andrew Barron

**13.00** – Sesiwn Holi ac Ateb

**13.30** – Cloi



## Pontio i ddyfodol ynni carbon isel mwy craff a diogel: Archwilio'r achos dros bolisi ynni uchelgeisiol i Gymru

**Yn ei Rhaglen Lywodraethu, Symud Cymru Ymlaen, mae Llywodraeth Cymru wedi ymrwymo i gefnogi datblygiad mwy o brosiectau ynni adnewyddadwy. Mae polisi ynni cyfredol Llywodraeth Cymru yn canolbwyntio ar bontio i ddyfodol ynni carbon isel drwy ystod o dechnolegau cynhyrchu (gan gynnwys ynni niwclear yn y tymor canolig) a mabwysiadu cymysgedd ynni yn cynnwys prosiectau ar raddfa fawr, canolig a bach.**

Ym mis Mawrth 2016 cyhoeddodd Pwyllgor Amgylchedd a Chynaliadwyedd y Pedwerydd Cynulliad ei adroddiad ar Ddyfodol Ynni Craffach i Gymru. Amlygodd yr adroddiad yr angen am weledigaeth strategol, gydlynol ar gyfer ynni yng Nghymru, ac am ddull cyfannol at bolisi, gydag ynni yn cael ei ystyried ar draws yr holl ddatblygiadau polisi. Yng nghyd-destun yr angen i ddatgarboneiddio ein system ynni a lleihau allyriadau carbon gan o leiaf 80% erbyn 2050, bydd y seminar yn archwilio a ddylai Cymru, fel yr argymhellodd y Pwyllgor, anelu at

ddiwallu ei holl anghenion ynni o ffynonellau adnewyddadwy yn unig, a sut beth ddylai cymysgedd ynni Cymru fod wrth symud ymlaen.

Bydd y seminar yn ystyried dichonoldeb anelu at ddiwallu anghenion ynni Cymru o ffynonellau adnewyddadwy, a'r heriau ynghlwm wrth hynny. Mae cwestiynau allweddol yn cynnwys:

- Pa mor uchelgeisiol ddylai Llywodraeth Cymru fod wrth ddiffinio rôl ynni adnewyddadwy yng nghymysgedd ynni Cymru yn y dyfodol?
- Beth yw'r prif heriau sy'n wynebu'r sector ac a oes angen mwy o sicrwydd ynghylch cyllid a pholisi?
- A oes achos o blaid cael ffynonellau ynni amgen (ee adweithyddion niwclear bach modiwlaid a/neu nwyon anghonfensiynol) i chwarae rhan yng nghymysgedd ynni Cymru yn y dyfodol?
- A oes angen unrhyw newidiadau i'r rhwydweithiau dosbarthu a chyflenwi presennol i alluogi paru'r cyflenwad a'r galw?

Bydd y materion hyn yn cael eu hystyried yng nghyd-destun yr arweiniad sydd ei angen i gyflawni pontio trawsnewidiol tuag at ddyfodol carbon isel.





Partneriaid  
digwyddiad

## Y Gwasanaeth Ymchwil

Rydym yn darparu gwasanaethau arbenigol, diduedd a chyfrinachol ym maes ymchwil, dadansoddi a gwybodaeth i Aelodau'r Cynulliad a'u staff, gyda'r nod o ddiwallu eu hanghenion.

Mae gennym wybodaeth helaeth am feysydd polisi yng Nghymru ynghyd ag arbenigedd dihafal o ran deall anghenion gwybodaeth Aelodau'r Cynulliad.

Mae'r Gwasanaeth Ymchwil yn darparu cymorth seneddol arbenigol i bob un o 60 Aelod y Cynulliad a Phwyllgorau'r Cynulliad.

Mae'r Gwasanaeth Ymchwil yn cynnwys:

- pedwar tîm ymchwil sy'n darparu cyngor arbenigol ar feysydd polisi penodol;
- Uned Craffu Ariannol sy'n rhoi cyngor arbenigol ar gyllid a chyllidebau'r Cynulliad, ac ar drethiant a dehongli ystadegau;
- arbenigwyr sy'n darparu cyngor ar y Cynulliad, y cyfansoddiad, deddfwriaeth y DU a'r UE, etholiadau a refferendymiau; a
- llyfrgell sy'n darparu ystod lawn o wasanaethau cyfeirio a gwybodaeth

I gael rhagor o wybodaeth gweler y wefan [www.cynulliad.cymru/ymchwil](http://www.cynulliad.cymru/ymchwil)



**Cynulliad Cenedlaethol Cymru**  
Y Gwasanaeth Ymchwil

## Cymdeithas Ddysgedig Cymru

Mae Cymdeithas Ddysgedig Cymru yn elusen annibynnol, ymreolaethol, Cymru-gyfan, ar draws yr holl ddisgyblaethau, ag iddi Siarter Brenhinol, sy'n sicrhau budd cyhoeddus gan gynnwys cyngor ysgolheigaidd arbenigol ar amrywiaeth o faterion polisi cyhoeddus yn gysylltiedig â gwyddoniaeth, peirianeg, meddygaeth, y celfyddydau, y dyniaethau a'r gwyddorau cymdeithasol.

Sefydlwyd y Gymdeithas yn 2010, ac mae'n tynnu ar gryfderau sylweddol dros 460 o Gymrodyr nodedig yng Nghymru, y DU a thu hwnt.

Nod y Gymdeithas, academi ysgolheigaidd gyntaf Cymru, yw ei sefydlu ei hun yn gynrychiolydd rhyngwladol cydnabyddedig byd dysg Cymru ac yn ffynhonnell o sylwadau awdurdodol, ysgolheigaidd a beirniadol ar faterion polisi sy'n effeithio ar Gymru.

Cenhadaeth Cymdeithas Ddysgedig Cymru yw:

- Dathlu, cydnabod, cadw, gwarchod ac annog rhagoriaeth ym mhob disgyblaeth ysgolheigaidd, gan gynnwys y proffesiynau, diwydiant a masnach, y celfyddydau a gwasanaeth cyhoeddus;
- Hyrwyddo datblygiad dysg ac ysgolheictod a rhannu a chymhwyso canlyniadau ymholiadau ac ymchwil academiaidd;
- Gweithredu fel ffynhonnell o gyngor a sylwadau ysgolheigaidd annibynnol ac arbenigol ar faterion sy'n effeithio ar les Cymru a'i phobl.

I gael rhagor o wybodaeth gweler y wefan [www.learnedsociety.wales](http://www.learnedsociety.wales)



**THE LEARNED SOCIETY OF WALES**  
**CYMDEITHAS DDYSGEDIG CYMRU**



.....  
Datganiadau  
siaradwyr  
.....



## Dr Nina Skorupska

Roedd 2016 yn flwyddyn anhygoel a fydd yn byw yn hir yn y cof...ac mae hanner cyntaf 2017 wedi bod yn ymdrechu'n galed i'w hefelychu! Roedd cyflymder y newid a welwyd yn y dirwedd wleidyddol yn syfrdanol, a chawsom ein hatgoffa o'r dywediad bod yna ddegawdau lle nad oes unrhyw beth yn digwydd; ac yna wythnosau lle mae degawdau yn digwydd.

Ar draws y byd, gwelwyd canlyniadau hynod annisgwyl, ac yma yn y DU, cawsom refferendwm a wnaeth droi'r sefyllfa bresennol ar ei ben, gan arwain yn gyflym at newid Llywodraeth, Gweinidogion newydd, adrannau newydd a chyfeiriad gwleidyddol newydd i'r wlad.

Wrth gwrs, mae newid chwyldroadol o'r fath yn cyrraedd pob diwydiant, ac nid oedd y sector ynni adnewyddadwy yn eithriad. Yn ogystal â'r newidiadau lefel uchel a gafwyd, rydym wedi ceisio ymdrin â newidiadau polisi pellach sydd wedi cael effaith drawmatig ar draws y sector. Nid yw'r effaith lawn eto wedi cael ei themlo o ran cyflwyno cynlluniau.

I ffwrdd o feysydd polisi a gwleidyddiaeth, mae'r diwydiant ei hun yn newid mewn modd radical. Rydym yn gweld newid sylfaenol o ran busnes a thechnoleg. Rydym yn gweld gweithredwyr newydd fel

busnesau corfforaethol a llywodraeth leol yn ceisio hyrwyddo modelau carbon isel o ddarparu ynni sydd yn eithaf radical, yng ngoleuni'r posibilïadau cyffrous o ran lleihau costau a datblygu ynni craff.

Rydym hefyd wedi gweld cyfleustodau traddodiadol yn ailsefydlu eu hunain fel darparwyr gwasanaethau ynni glân i'w cwsmeriaid ac yn neilltuo eu hymrwymïadau ffosil (wrth gwrs, maent yn dal yn gobeithio gwneud elw ohonynt cyn y bydd y farchnad yn cael ei thrawsnewid mewn ffyrdd sydd hyd yn oed yn fwy arwyddocaol).

Mae hyn i gyd wedi'i seilio ar gostau technoleg sy'n gostwng a buddsoddiadau sy'n cynyddu. Nid oes modd gwadu bod ynni adnewyddadwy a thechnoleg lân yn un o'r diwydiannau sy'n tyfu gyflymaf yn y byd. Yma yn y DU, mae angen gwneud gwaith sylweddol i uwchraddio ein seilwaith ynni ein hunain, ac mae gan y Llywodraeth uchelgais i arwain y byd ym maes newid hinsawdd ac i gael strategaeth ddiwydiannol sy'n hyfyw a pherthnasol. Credaf fod ynni adnewyddadwy a thechnoleg lân yn parhau i fod yn gyfle busnes pwysig, ac mae'n amlwg bod yn rhaid cael y buddsoddiad sydd ei angen. Yr unig gwestiwn sydd ar ôl yw: pa mor gyflym y gall y DU fanteisio ar y sefyllfa hon cyn y bydd eraill yn gwireddu'r uchelgais hwn?

## Yr Athro Max Munday

Mae dadleuon ar ddyfodol ynni carbon isel yng Nghymru wedi canolbwyntio, yn gywir, ar leihau carbon a allyrrir yn sgil cynhyrchu trydan. Fodd bynnag, er y newid amlwg tuag at gynhyrchu adnewyddadwy yng Nghymru, cafwyd llawer llai o drafodaeth ynghylch sut mae Cymru yn elwa o ran adeiladu a gweithredu cyfleusterau cynhyrchu ynni newydd.

Ychydig o gyflogaeth y mae ynni adnewyddadwy yn ei chreu yn economi Cymru, ac lle crëir cyflogaeth mae hynny fel arfer yn digwydd yn ystod cyfnod adeiladu'r cyfleusterau newydd, ac eithaf cyfyngedig yw'r cyfleoedd hynny i bobl lleol. Cynigwyd mai hwn yw un o'r rhesymau y mae rhai cynlluniau cynhyrchu yng Nghymru wedi bod yn 'hael' o ran darpariaethau manteision cymunedol.

Gallai Dyfodol Ynni Doethach yng Nghymru weithio i ddarparu mwy o gyfleoedd i bobl a chwmnïau lleol, gan roi mwy o ystyriaeth i sut y mae gwahanol dechnolegau adnewyddadwy yn gweithio i gefnogi gweithgarwch economaidd lleol. Mae hefyd heriau i ymdrin â hwy o ran sut y gall meysydd cynllunio a pholisi weithio i annog modelau perchnogaeth a chyllido gwahanol ar gyfer datblygu ynni adnewyddadwy yn y rhanbarth.

## Yr Athro Hywel Thomas

Byddaf yn trafod prosiect newydd a ariennir gan WEFO, sef FLEXIS (Flexible Integrated Energy Systems), sydd ar y gweill yng Nghymru.

Mae'r prosiect, dan arweiniad Prifysgol Caerdydd, yn dod ag arbenigwyr ynghyd o brifysgolion ledled Cymru i hwyluso proses bontio fforddiadwy, gynaliadwy a chymdeithasol dderbyniol i ddyfodol carbon isel.

Bydd y prosiect pum mlynedd yn ceisio datrys cyfres o heriau amrywiol, cymhleth a rhyng-ddibynnol, yn amrywio o storio ynni i ddatgarboneiddio a thlodi tanwydd. Bydd yr ymchwil yn seiliedig ar bedwar prif biler, fel a ganlyn:

- Cynaliadwyedd
- Sicrwydd Cyflenwad Ynni
- Materion Economaidd-Gymdeithasol
- Arddangoswr Cymraeg "Yn seiliedig ar Le"

Mae'r pedwar piler hwn yn cael eu rhannu ymhellach yn Becynnau Gwaith, gyda gweithgareddau datblygu ymchwil a gweithgareddau arloesi integredig yn pontio dau gyfnod craidd trawsnewidiad ein systemau ynni, sef y Pontio i'r Dyfodol Carbon Isel a Dyfodol Carbon Isel ei hun.

# Professor Andrew R Barron

**Mae'n rhaid i'r weledigaeth o anghenion ynni Cymru o ffynonellau adnewyddadwy fod o'r radd flaenaf ac yn ysbrydoliaeth i ranbarthau eraill.**

Ar yr un pryd, mae'n rhaid iddi gael ei harwain gan wyddoniaeth a bod yn agored i ymagwedd integredig sy'n cynnwys atebion lluosog a chreadigol. Rhaid iddi hefyd ddeall effaith fyd-eang penderfyniadau, yn hytrach na throsglwyddo ein problemau mewn modd annoeth i rywun arall, fel y bydd yn digwydd trwy gynyddu dibyniaeth ar lithiwm ar gyfer storio pŵer.

Dylai Llywodraeth Cymru fynd ati i hyrwyddo cymysgedd o ynni ar gyfer y dyfodol yn cynnwys ynni adnewyddadwy yn yr ystyr ehangaf a mwyaf creadigol. Mae angen i Gymru fod mewn sefyllfa i gyflawni'r nod hwn drwy ddarganfod a gweithredu technoleg newydd ar gyfer dyfodol ynni cynaliadwy, fforddiadwy, a sicr.

Wrth geisio dyfodol adnewyddadwy, bydd Cymru yn symud oddi wrth y sicrwydd a fu ar ôl y chwyldro diwydiannol o gynhyrchu pŵer rhagweladwy ac yn dychwelyd at amrywioldeb ffynonellau pŵer fel cyn y chwyldro diwydiannol. Er mwyn creu ynni gwyrdd cynaliadwy, ar-alw, bydd angen trawsnewid ynni dros ben ac ynni gwastraffu (nas cynhyrchwyd) trwy amrywiaeth o drawsffurfiadau (gwres-i-drydan a

thrydan-i-hydrogen) gan ddarparu gwell hyblygrwydd o ran galw a chyflenwad.

Diffinnir ynni adnewyddadwy'n draddodiadol fel ffynonellau trydan, fel gwynt, tonnau, y llanw a solar, neu danwydd yn cynnwys hydrogen a biodanwydd. Fodd bynnag, un adnodd y mae gan Gymru ddigonedd ohono yw CO<sup>2</sup>. Mae diwydiant trwm Cymru yn gyfrifol am hyd at 40 y cant o allyriadau CO<sup>2</sup> y wlad. Os yw Cymru am sicrhau ei ostyngiad o 80 y cant erbyn 2050, mae'n rhaid iddi fynd i'r afael â'r cynhyrchiant anochel o ddiwydiant. Yn lle hynny, mae angen i Gymru ystyried CO<sup>2</sup> fel ei adnodd mwyaf. Ar y cyd â chynhyrchu H<sup>2</sup> am y cost leiaf posibl a dulliau bioburfa, gall trawsnewid CO<sup>2</sup> yn gynnyrch gwerth ychwanegol ar gyfer y sectorau bwyd, dyframaethu, amaethyddiaeth, cemegol, modurol ac awyrennol, yn ogystal ag amnewidion tanwydd, gyweddu i'r gadwyn gyflenwi bresennol.

Mae nwy naturiol anghonfensiynol yn ffynhonnell ynni drosiannol ac yn ddull y mae'n bosibl ei ddefnyddio i gynhyrchu ynni negyddol carbon. Gall siâl amsugno 2.5-3 gwaith cymaint o CO<sup>2</sup> â'r nwy siâl naturiol a echdynnir. Wedyn gellir selio'r gronfa yn ddaearegol gyda'r CO<sup>2</sup> yn yr un cyflwr â'r nwy a ddisodlwyd ganddo heb ddefnyddio cemegau a heb y risg o halogi dŵr. Byddai siâl y DU yn caniatáu dal a storio carbon a fyddai'n cyfateb i tua 500 mlynedd o allyriadau CO<sup>2</sup> ar lefel bresennol y DU.





Proffliau  
siaradwyr

## Dr Nina Skorupska



Nina Skorupska yw Prif Weithredwr y Renewable Energy Association (REA), y gymdeithas fasnach fwyaf gyda thros 750 o gwmnïau'n aelodau. Mae'r REA yn cwmpasu pob technoleg adnewyddadwy gan gynnwys trydan, gwres a thrafnidiaeth ac mae'n cynnwys storio ynni a cherbydau trydan yn ei bortffolio o gynrychiolaeth.

Mae wedi gweithio yn y diwydiant ynni am dros 30 mlynedd. Dechreuodd ei gyrfa fel arbenigwr tanwydd ond symudodd yn gyflym i reoli gorsafoedd pŵer i RWE npower. Ar ôl cael nifer o swyddi uwch o fewn y Grŵp RWE,

daeth ei gyrfa gyda nhw i ben pan ymunodd â Bwrdd busnes yr RWE yn yr Iseldiroedd, Essent, fel Prif Swyddog Technegol, lle mae'n gyfrifol am eu portffolio cynhyrchu trydan gan gynnwys datblygiadau ynni newydd a chynaliadwyedd.

Mae hi hefyd yn Is-Lywydd yr European Renewable Energy Federation (EREF) ar hyn o bryd ac yn aelod balch o Fwrdd yr ymgyrch WISE (Women in Science and Engineering).

Dyfarwyd CBE i Nina yn ddiweddar yn rhestr Anrhydeddau'r Flwyddyn Newydd 2016 am ei chyfraniad i ynni adnewyddadwy a chydardoldeb mewn Ynni. Ym mis Medi y llynedd, penodwyd Nina i Fwrdd Transport for London.

## Yr Athro Max Munday



Max Munday yw Cyfarwyddwr yr Uned Ymchwil i Economi Cymru yn Ysgol Fusnes Caerdydd, a Dirprwy Gyfarwyddwr Sefydliad Ymchwil Dŵr Prifysgol Caerdydd. Mae ei ddiddordebau yn cynnwys economeg ranbarthol, economeg twristiaeth, a pholisï rhanbarthol.

Yn ddiweddar, cynhaliodd gyfres o ddadansoddiadau o'r effeithiau economaidd rhanbarthol sy'n gysylltiedig ag adeiladu a datblygu gwahanol dechnolegau cynhyrchu trydan. Mae hefyd wedi gwneud ymchwil i'r darpariaethau manteision cymunedol a gynigir gan ddatblygwyr ynni.

Mae wedi cyhoeddi yn y meysydd hyn mewn cyfnodolion megis Environment and Planning a Regional Studies. Mae gwaith arall wedi canolbwyntio ar ddadansoddi gwastraff ac ôl troed carbon yn niwydiant Cymru, ac ar yr ôl troed carbon sy'n gysylltiedig â defnydd cartrefi a defnydd diwydiant o ynni yng Nghymru.

Mae hefyd yn ymchwilio i effeithiau economaidd ac amgylcheddol digwyddiadau chwaraeon a diwylliannol mawr, gan gynnwys Cwpan yr FA a chymalau Tour de France, ac, ar hyn o bryd, mae'n cynnal dadansoddiad o Rownd Derfynol y Cwpan Ewropeaidd a gynhaliwyd yng Nghaerdydd yn 2017.

Ar hyn o bryd mae'n arwain prosiect ymchwil o bwys a ariennir gan gyllid Ewropeaidd ym Mhrifysgol Caerdydd mewn partneriaeth â Llywodraeth Cymru yn archwilio ymatebion busnesau bach a chanolig i fand eang cyflym iawn yng Nghymru.

## Yr Athro Hywel Thomas



Yr Athro Hywel Thomas yw Dirprwy Is-Ganghellor, Ymchwil, Arloesedd ac Ymgysylltu ym Mhrifysgol Caerdydd. Yn y swydd hon, mae'n gyfrifol am weithgareddau ymchwil y Brifysgol a'r agenda arloesi, gan gynnwys masnacheiddio ac effaith economaidd ehangach y Brifysgol.

Mae'r Athro Thomas hefyd yn Athro Peirianeg Sifil. Ef yw Cyfarwyddwr y Ganolfan Ymchwil Geoamgylcheddol (GRC) ac mae'n Athro UNESCO yn Natblygiad Geoamgylchedd Gynaliadwy.

Mae ei ddiddordebau ymchwil yn cwmpasu ystod eang o faterion geoamgylcheddol, o broblemau llif Geocemeg/Amlffiseg mewn pridd a chreigiau, i faterion cynaliadwyedd yn gyffredinol. Mae ei ddiddordebau presennol yn cynnwys y maes geoynni, gyda phrosiectau mawr ar wres o'r ddaear, nwyeddio glo tanddaearol, datblygu nwy anghonfensiynol a dal a storio carbon mewn gwythiennau glo.

Mae'n Gymrawd y Gymdeithas Frenhinol (FRS), yn Gymrawd yr Academi Frenhinol Peirianeg (FREng), yn Aelod o Academia Europaea, Academi Ewrop (MAE) ac yn Gymrawd Cymdeithas Ddysgedig Cymru (FLSW).

Dyfarwyd CBE iddo yn Rhestr Anrhydeddau'r Flwyddyn Newydd yn 2017.

## Yr Athro Andrew R Barron




Yr Athro Andrew R. Barron yw Cadeirydd Sêr Cymru Ynni Carbon Isel a'r Amgylchedd, lle mae ei waith ymchwil yn cynnwys cymhwyso nanodechnoleg i broblemau sylfaenol mewn ymchwil ynni.

Ef yw sylfaenydd a chyfarwyddwr yr Energy Safety Research Institute (ESRI), sef buddsoddiad o £38 miliwn ar y Campws Gwyddoniaeth ac Arloesedd newydd a fydd yn canolbwyntio elfennau o waith ymchwil ynni'r Brifysgol gyda phwyslais unigryw ar ddiogelwch.

Cafodd yr Athro Barron ei addysg yng Ngholeg Imperial (Llundain), ac mae wedi dal swyddi ym Mhrifysgol Texas yn Austin ac ym Mhrifysgol Harvard. Mae'n parhau i fod yn Gadeirydd Cemeg Charles W. Duncan, Jr - Welch ac ef yw Athro Gwyddor Defnyddiau ym Mhrifysgol Rice.

Yr Athro Barron yw awdur dros 400 o gyhoeddiadau, 20 o Batentau, a phum llyfr, ac mae wedi derbyn nifer o wobrau, gan gynnwys Gwobr Ymchwil Uwch Wyddonydd Humboldt, Medal Corday Morgan, a Medal Meldola, ac ef oedd y cyntaf i ennill Gwobr Norman Hackerman Sefydliad Welch.

Mae'n Gymrawd y Gymdeithas Frenhinol Cemeg, ac yn 2009 fe'i penodwyd yn Arloeswr Gwadd Tywysog Cymru. Yn 2011 enillodd Wobr Cyflawniad Oes mewn Nanodechnoleg Canolfan Dechnoleg Houston a Gwobr Technoleg y Byd am Ddeunyddiau.



WRTH DDWRATHAN